# LISA REYNOLDS
# CLWB PÊL-RWYD LLANTRISANT

Mae Lisa wedi bod yn aelod o Glwb Pêl-rwyd Llantrisant ers bron i 40 o flynyddoedd. Ar ôl ymuno fel chwaraewr yn y lle cyntaf, dechreuodd wirfoddoli i helpu'r clwb. Mae gan Glwb Pêl-rwyd Llantrisant dros 250 o aelodau, sy'n amrywio o 6 oed i 60 oed. Dechreuodd Lisa ddyfarnu i helpu'r clwb gyda'i gemau cynghrair niferus. Yn ogystal â bod yn ddyfarnwr cymwys, mae Lisa hefyd yn hyfforddwr Lefel 1 cymwys ac mae hi'n hyfforddi tîm dan 16/17 oed y clwb ar hyn o bryd.

Mae Lisa yn fodlon ysgwyddo unrhyw rôl neu dasg y mae angen ei gwneud, o waith gweinyddu i godi arian neu drefnu a mynd ar deithiau'r clwb. Mae hi'n gwirfoddoli ar y penwythnos a 2-3 noson yr wythnos. Dydy cyfraniad Lisa at waith rhedeg y clwb yn gyffredinol ddim wedi cael llawer o sylw ers nifer o flynyddoedd ond fyddai'r clwb ddim mor llwyddiannus ag y mae heddiw heb ei chymorth a'i hymroddiad.




Chwaraeon RhCT
Sport RCT

## GWIRFODDOLWR Y MIS

## RHAGFYR 2024